# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 23AIN TACHWEDD, 2023**
NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU AM 10:00YB

Lleoliad

**Cyfarfod Hybrid – Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon ac yn rhithiol trwy Zoom**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Ffion Elain Evans**

**ffionelainevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 15 Tachwedd 2023)

# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

**AELODAETH (18)**

## Plaid Cymru (11)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Menna Baines | R Medwyn Hughes |
| Rheinallt Puw | Dewi Jones |
| Linda Ann Jones | Linda Morgan |
| Gwynfor Owen | Meryl Roberts |
| Einir Wyn Williams | Sasha Williams |
| Jina Gwyrfai | |

## Annibynnol (6)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Elwyn Jones | Anwen J. Davies |
| Eryl Jones-Williams | Beth Lawton |
| John Pughe | Angela Russell |

## Llafur / Rhyddfrydol (1)

Y Cynghorydd Gareth Coj Parry

## Aelodau Ex-officio

Is-Gadeirydd y Cyngor – Beca Roberts

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 5 - 15

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod diwethaf y pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar y 21ain o Fedi, fel rhai cywir.

**5. GWASANAETH GOFAL DYDD** 16 - 19

Ystyried yr adroddiad.

**6. TREFNIADAU RHEOLI A CHYNNAL CARTREFI GOFAL** 20 - 25

Ystyried yr adroddiad.

**7. CEFNOGAETH I OFALWYR DI-DAL** 26 - 32

Ystyried yr adroddiad.

# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL DYDD IAU, 21 MEDI 2023

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Beth Lawton (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Jina Gwyrfai, R. Medwyn Hughes, Dewi Jones, Elwyn Jones, Eryl Jones-Williams, Linda Morgan, Gwynfor Owen, Gareth Coj Parry, Rheinallt Puw, Meryl Roberts, Angela Russell, Einir Wyn Williams

**Swyddogion yn bresennol:** Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Ffion Elain Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth) ac Ellie Mai Evans (Cynorthwyydd Gweinyddol Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:**

Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant)
Huw Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol)
Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)

**Yn bresennol ar gyfer eitemau 5 & 6:**

Y Cynghorydd Craig ab Iago (Aelod Cabinet Tai)
Carys Fôn Williams (Pennaeth Tai ac Eiddo)
Hedd Morlais Glyn Tomos (Pennaeth Cynorthwyol Tai ac Eiddo)
Gareth Wyn Parri (Arweinydd Tîm Comisiynu)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7:**

Amanda Ellen Davies (Ymarferydd Arweiniol Anabledd Dysgu)
Bethan Wyn Evans (Arbenigwr Categori a Datblygu)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Menna Baines, Anwen J. Davies a Linda Ann Jones.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd yr aelodau canlynol fod ganddynt fuddiant mewn perthynas â'r eitem a nodir:

- Y Cynghorydd Elwyn Jones yn eitem 5 gan fod aelodau o'i deulu yn ddigartref. Roedd yr Aelod o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod.
- Y Cynghorydd Gwynfor Owen yn eitem 8 ar y rhaglen oherwydd bod gan ei fab awtistiaeth. Roedd yr Aelod o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod.

## 3. MATERION BRYS

Dim i’w nodi.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o’r Pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar yr 22ain o Fehefin 2023, fel rhai cywir.

## 5. POLISI GOSOD TAI A RHESTR AROS TAI

Cyflwynwyd yr adroddiad gan egluro mai diweddariad pellach ar y Polisi Gosod Tai a oedd dan sylw a bod y polisi eisoes wedi bod gerbron y Pwyllgor Craffu Gofal yn y gorffennol. Esboniwyd bod newidiadau wedi’u gwneud i bolisi’r Cyngor yng nghyd-destun sut y pennir i ba fandiau y caiff ceisiadau tai eu rhoi a bod y polisi presennol wedi bod mewn gweithrediad ers bron i dair blynedd bellach. Nodwyd bod y polisi wedi llwyddo i uchafu’r nifer o dai sy’n cael eu gosod i drigolion Gwynedd o 90% i 96.7% a bod hyn yn ganran uchel iawn, yn enwedig o ystyried nad oes modd ystyried cyswllt lleol fel maen prawf blaenoriaeth hanfodol ym mhob cais.

Esboniwyd bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi Papur Gwyn ym mis Hydref 2023 fyddai’n adolygu’r ddeddfwriaeth a’n gwneud newidiadau sylfaenol i’r ffordd yr ymdrinnir gyda digartrefedd ei ddelio gydag yng Nghymru. Oherwydd y cysylltiad rhwng digartrefedd ac eiddo cymdeithasol, sgil-effaith edrych ar adolygu’r ddeddfwriaeth ar ddigartrefedd yw bod angen ail-edrych ar sut mae eiddo cymdeithasol yn cael ei osod ac unrhyw sgil-effeithiau sy’n deillio o’r broses honno.

Nodwyd bod yr Adran Tai yn disgwyl yn eiddgar i weld y Papur Gwyn er mwyn cael dealltwriaeth o gyfeiriad y Llywodraeth. Eglurwyd bod ganddynt syniad eithaf da gan eu bod wedi bod mewn cyfarfodydd a thrafodaethau cyson gyda’r Llywodraeth dros y misoedd diwethaf ac wedi cael cyfle i nodi eu barn a’u teimladau am y newidiadau posib. Nodwyd felly eu bod yn gobeithio na fydd unrhyw beth rhy ysgytwol wedi’i gynnwys yn y Papur Gwyn ond y bydd angen ychydig o amser ar yr adran i werthuso ei gynnwys ac unrhyw effaith y gallai gael ar bolisïau’r Cyngor. Eglurwyd ei bod hi’n debygol bod cryn waith yn wynebu’r adran unwaith y caiff y Papur Gwyn ei gyhoeddi.

*Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-*

- Diolchwyd am yr adroddiad gan nodi balchder dros lwyddiant y polisi hyd yma.

- Codwyd cwestiynau am ddiffiniad y cysylltiad lleol a mynegwyd pryder y gallai’r Cyngor ddweud eu bod yn llwyddiannus wrth ddarparu tŷ i rywun o Aberdyfi ym Methesda. Gofynnwyd am eglurhad o sut y gellir sicrhau bod pobl fregus yn gallu aros yn eu cymunedau.
    - Mewn ymateb eglurwyd er bod gan bob awdurdod elfen o hyblygrwydd pan mae’n dod i Bolisi Gosod Tai, bod rhaid rhoi blaenoriaeth statudol i 5 categori o bobl ac felly bod yr elfen cysylltiad lleol yn gorfod bod yn eilradd i’r categorïau statudol hynny.
    - Nodwyd bod Cyngor Gwynedd wedi ychwanegu haen cysylltiad cymuned sy’n mynd ymhellach na chysylltiad lleol. Mewn sefyllfa pan fo ymgeiswyr yn yr un band blaenoriaeth eglurwyd y byddai pobl sydd gyda chysylltiad cymunedol yn cael blaenoriaeth dros y rhaid nad oedd gyda’r cysylltiad cymuned.
    - Esboniwyd bod 54% o’r gosodiadau diweddar wedi eu gwneud i ymgeiswyr oedd gyda chysylltiad cymunedol. Er bod y ffigwr yn ymddangos yn isel ar

yr olwg gyntaf, eglurwyd bod diffyg llety addas mewn rhai cymunedau, er enghraifft dim fflatiau i bobl sengl mewn ardaloedd mwy gwledig, yn cyfrannu'n uniongyrchol at y ffigwr. Cadarnhawyd bod y ffigwr yn llawer uwch os yr ystyrir pobl sydd gyda chysylltiad i gymunedau cyfagos.
    - Yng nghyd-destun cryfhau'r elfen cysylltiad lleol, nodwyd y byddai'n anodd gweld beth ellir ei wneud yn ychwanegol o fewn cyfyngiadau'r ddeddfwriaeth a chanllawiau presennol ac felly byddai'n rhaid disgwyl a gweld beth sy'n cael ei ddweud yn y Papur Gwyn.

- Cadarnhawyd bod y Cyngor yn derbyn arian sylweddol gan Lywodraeth Cymru bob blwyddyn er mwyn cefnogi pobl sy'n wynebu digartrefedd a'u bod yn cydweithio gydag asiantaethau allanol er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu dal gafael ar eu tenantiaethau.

- Mewn ymateb i gwestiwn am rôl y cymdeithasau tai yn y broses o benderfynu pwy sy'n cael tŷ, eglurwyd mai'r polisi sy'n gyrru'r penderfyniad a bod trefn flaenoriaethu glir i'w gael yn y polisi.
    - Nodwyd mai'r cyngor oedd yn hanesyddol yn cynhyrchu'r rhestr flaenoriaeth ond bod swyddogion y cymdeithasau tai yn gwneud hyn bellach. Er hyn, cadarnhawyd mai'r un polisi sy'n cael ei ddefnyddio ac y byddai angen rheswm dilys i beidio rhoi'r eiddo i'r person ar dop y rhestr.
    - Eglurwyd na ddylid gwneud penderfyniadau am geisiadau unigol oni bai am mewn amgylchiadau eithriadol gan fod hyn yn mynd yn groes i'r polisi.
    - Nodwyd bod y Cyngor yn y broses o weithio ar system gyfrifiadurol a fyddai'n gwneud hi'n amhosib hepgor ymgeisydd gan na fyddai posib cynnig yr eiddo i'r person nesaf ar y rhestr.
    - O ran atebolrwydd, cadarnhawyd mai'r Cyngor sy'n gyfrifol am y gofrestr a'u bod yn derbyn adroddiadau gosod gan y cymdeithasau tai er mwyn gallu monitro'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud.

- Esboniwyd nad yw'r Cyngor ei hun yn adeiladu tai cymdeithasol, yn hytrach maent yn gweithio gyda phartneriaid a chymdeithasau tai er mwyn eu hadeiladu. Nodwyd bod cynnydd wedi bod yn yr arian sydd ar gael i adeiladu tai cymdeithasol ac o ran y broses, eglurwyd bod y cymdeithasau tai yn adnabod cynlluniau posib ac yna'r mae'r Cyngor yn asesu pa rai y maent am flaenoriaethu.

- Cadarnhawyd mai er mwyn adeiladu tai fforddiadwy, nid tai cymdeithasol, y byddai'r refeniw o'r dreth ychwanegol yn cael ei ddefnyddio.

- Nodwyd bod y ffurflen gais ar gyfer y tai cymdeithasol ar gael ar wefan y Cyngor ac er bod y ffurflen wedi ei chwtogi o 20 i 12 tudalen, rhoddwyd cydnabyddiaeth i'r ffaith ei bod hi'n ffurflen hir sy'n gofyn nifer o gwestiynau. Esboniwyd bod y cwestiynau'n cael eu gofyn am resymau penodol er nad yw hyn bob amser yn glir i'r ymgeisydd.

- Eglurwyd bod y broses o sicrhau bod y tai a brynwyd gan y Cyngor yn barod wedi cymryd hirach na'r disgwyl ond eu bod yn gobeithio gallu eu llenwi cyn gynted â phosib o fewn y misoedd nesaf.

- Mynegwyd pryder am le mae gweithwyr allweddol yn ffitio mewn i'r polisi, yn enwedig o ystyried nad oes modd cael gweithwyr mewn rhai rhannau o Wynedd oherwydd diffyg llefydd iddynt aros.
    - Mewn ymateb, nodwyd bod y gyfraith yn nodi bod rhaid dangos blaenoriaeth i 5 categori o bobl a bod gweithwyr allweddol ddim yn rhan o'r rheini.

    - Serch hynny, nodwyd bod elfen o hyblygrwydd yno i'r Cyngor adolygu hyn ond bod angen aros rŵan i weld y newidiadau sy'n gysylltiedig â'r Papur Gwyn.

- Cafwyd sawl cwestiwn am y modd y caiff ffigyrau eu dyblygu wrth ystyried faint o bobl sydd ar y rhestr aros mewn gwahanol ardaloedd gan fod rhai ymgeiswyr yn debygol o fod ar y rhestr mewn mwy nac un ardal. Holwyd hefyd a oes lle i ddatblygu system well o ddarparu gwybodaeth am restrau aros?
    - Mewn ymateb, cadarnhawyd gan swyddog bod 2346 o ymgeiswyr ar y gofrestr ond bod y ffigwr yn newid yn ddyddiol. Nodwyd bod y tîm yn derbyn oddeutu 27 o geisiadau newydd bob wythnos ac wedi derbyn oddeutu 950 o geisiadau yn barod eleni.
    - Eglurwyd bod galw cynyddol ar y tîm i rannu'r wybodaeth a'i bod hi'n llawer haws adrodd ffigyrau fesul ardal ar hyn o bryd gan ei bod hi'n mynd yn llawer mwy cymhleth wrth gyfuno ardaloedd ayyb. Nodwyd bod angen meddwl am flaenoriaethau'r tîm.
    - Tynnwyd sylw at y ffaith nad yw'r nifer o geisiadau yn hafal i'r nifer o bobl gan fod nifer o geisiadau yn cynnwys teuluoedd. Nodwyd bod y ffigyrau yn frawychus a bod yr adran yn deall pam fod y cynghorwyr eisiau gwybod beth sy'n digwydd yn eu wardiau.

- Nodwyd ei bod hi'n bwysig bod Cynghorwyr yn gallu gwybod (gyda chaniatâd yr ymgeisydd) pa wybodaeth sydd gan yr adran gan fod ymyrraeth Cynghorwyr yn aml yn gallu arwain at ddarparu'r wybodaeth lawn i'r adran.
    - Mewn ymateb, nodwyd bod y gyfraith a chod ymarfer gan Lywodraeth Cymru yn egluro pa rôl y gall Cynghorwyr chwarae yn y broses. Derbyniwyd bod lle iddynt gefnogi neu eirioli ar ran eu hetholwyr.
    - Eglurodd y swyddogion eu bod yn gobeithio y byddai datblygu'r system newydd yn hwyluso'r broses gofrestru am eiddo cymdeithasol sydd yn cynnwys darparu gwybodaeth i gefnogi'r cais. Er eu bod yn symud i'r cyfeiriad cywir, cafwyd cydnabyddiaeth nad yw hynny wedi ei gyflawni'n llawn eto.

- Mewn ymateb i gwestiwn am rôl hicyn cyflog neu hicyn incwm yn y polisi, esboniwyd nad yw hynny bellach yn rhan o'r polisi a bod y Cyngor wedi symud i ffwrdd o ddefnyddio hyn gan fod y farchnad yn gallu amrywio rhwng ardaloedd. Nodwyd bod yr adran yn ystyried amgylchiadau unigol yr ymgeisydd yn ddibynnol ar y math o ardaloedd maent yn eu dewis a dod i'r casgliad ydi'r incwm ganddyn nhw i gwrdd â'r anghenion tai yn gyfforddus yn y sector preifat.

- Mynegwyd pryder am dai anodd eu gosod, er enghraifft tai pedair llofft mewn ardaloedd gwledig, a'r modd y mae perygl i'r rhain gael eu gosod i bobl sy'n isel ar y rhestr. Gofynnwyd a oes posib gwneud gwell defnydd o'r tai rhain, er enghraifft, eu gwerthu i bobl leol?
    - Mewn ymateb, derbyniwyd bod problemau mewn rhai ardaloedd ac efallai bod lle i'r adran gael sgyrsiau gyda'u partneriaid er mwyn cael datrysiad.
    - Nodwyd bod y partneriaid yn rhagweithiol wrth geisio denu pobl i'r eiddo ond bod defnyddio cyfryngau cymdeithasol a'r we er mwyn hysbysebu eiddo yn cynyddu'r risg o dynnu diddordeb o'r tu allan. Dadleuwyd mai dyma ble mae'r polisi yn camu mewn a bod ymgeiswyr sydd gyda chysylltiad Gwynedd yn cael eu blaenoriaethu a'i bod hi'n deg dweud mai eithriadau ydi'r bobl sy'n cael eiddo heb gysylltiad.

- Tynnwyd sylw at y modd y mae'r boblogaeth yn heneiddio ac efallai nad yw rhai pobl yn yr eiddo mwyaf addas ar eu cyfer. Yn sgil hyn, holwyd sut mae'r Adran Tai

yn cydweithio gyda'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant er mwyn sicrhau bod pobl yn byw mewn eiddo sy'n addas ar eu cyfer a sut mae monitro bod nifer digonol o dai addas ar gyfer anghenion demograffig Gwynedd?

  - Mewn ymateb, nodwyd bod systemau mewn lle gan bartneriaid er mwyn adnabod enghreifftiau felly o'u tenantiaid a sut y mae posib rhyddhau'r math yna o eiddo ar gyfer defnydd mwy priodol.
  - Wrth gynllunio eiddo newydd, eglurwyd bod dadansoddiad manwl o'r anghenion yn cael ei wneud er mwyn ceisio cwrdd ag anghenion ar draws y sbectrwm o fewn y cynllun datblygu.
  - O ran y cydweithio rhwng yr adrannau, cadarnhawyd bod perthynas agos rhwng yr adrannau yn hanfodol bwysig. Esboniwyd bod perthynas agos rhwng gofal a gwasanaethau tai gan fod canran uchel o'r materion sy'n codi yng nghyd-destun gofal yn ymwneud gydag addasrwydd tai. Mae cydweithrediad rhwng yr adrannau yng nghyd-destun addasu tai er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu aros yn eu cartrefi.
  - Rhoddwyd cydnabyddiaeth i'r ffaith fod heriau'n codi o ran argaeledd arian ac adnoddau er mwyn gwneud addasiadau i dai. Mynegwyd pryder nad oes adnoddau digonol er mwyn cyfarch yr angen a bod risg i hyn arwain at gynnydd yn yr amser y mae'n rhaid i bobl aros am dŷ addas.
  - Nodwyd bod y ddwy adran newydd ddechrau cydweithio ar ddarn o waith i edrych ar y sefyllfa yng nghyd-destun addasrwydd tai ac er mwyn ceisio rhagweld yr anghenion dros y 25 mlynedd nesaf i weld sut y gellir cynllunio a pharatoi ar gyfer cyfarch yr angen sydd i ddod yn sgil y boblogaeth sy'n heneiddio.

- Mewn ymateb i gwestiwn a oedd yn gofyn sut mae'r penderfyniad am y bandiau yn cael ei wneud, eglurwyd mai'r polisi sy'n penderfynu.
  - Ceir enghreifftiau cynhwysfawr yn y polisi o'r hyn sy'n cael ei ystyried fel anghenion tai a'r hyn sy'n cael ei ystyried fel anghenion tai brys. Mae'n ddibynnol ar amgylchiadau'r unigolyn a sut mae'r rhain yn cael eu cyfleu i'r Tîm Opsiynau Tai.
  - Eglurwyd bod y trothwyon yn glir yn y polisi a bod yr angen am dai cymdeithasol wedi cynyddu'n sylweddol a bod anghenion pobl wedi dod yn fwy amlwg a dybryd ers cyfnod Covid-19. Oherwydd hyn, nodwyd bod y tîm wedi gorfod gwrthod rhai ceisiadau ym mand 2.
  - Nodwyd eto bod angen aros a gweld os bydd unrhyw gyfeiriad yn y Papur Gwyn tuag at newid y ffordd o asesu.

- Esboniwyd bod cynrychiolwyr o'r Cyngor, y cymdeithasau tai a therapyddion galwedigaethol o ochr plant ac oedolion yn rhan o'r Grŵp Tai Arbenigol a bod y grŵp yn ceisio darganfod datrysiadau ar gyfer achosion lle nad yw'r stoc dai traddodiadol cymdeithasol yn diwallu anghenion yr ymgeisydd.

- Mewn ymateb i gwestiwn a oedd yn holi os oedd unrhyw beth yn rhwystro'r Cyngor rhag adeiladu rhagor o dai cymdeithasol, eglurwyd bod y stoc wedi ei throsglwyddo i'r cymdeithasau tai ond bod y Cyngor yn parhau i arwain ar y gwaith ac yn penderfynu ble mae'r arian yn mynd.

- Nodwyd bod cynlluniau i adeiladu 700 o dai ychwanegol cyn diwedd y Cynllun Datblygu a bod y Cyngor eisoes wedi prynu 16 tŷ a bod 5 arall ar y gweill.

- O ran yr ymgynghoriad sy'n dilyn cyhoeddi'r Papur Gwyn, cadarnhawyd y byddai'r Cyngor yn ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad. Nodwyd nad yw'r Llywodraeth wedi cyhoeddi manylion yr ymgynghoriad ac felly byddai'n anodd dweud a oes rôl i'r pwyllgor yn yr ymgynghoriad.

- Nodwyd bod heddiw wedi bod yn gyfle da i'r adran ddiweddaru'r Pwyllgor o'r newidiadau sydd i ddod.

**PENDERFYNWYD**

a) **Derbyn a nodi'r adroddiad.**
b) **Gofyn i'r swyddogion adrodd yn ôl i'r Pwyllgor maes o law ar unrhyw oblygiadau posibl i'r polisi yn dilyn asesu cynnwys Papur Gwyn Llywodraeth Cymru.**
c) **Gofyn i'r swyddogion ystyried a oes lle i'r Pwyllgor gyfrannu at ymateb Cyngor Gwynedd i'r ymgynghoriad sy'n dilyn cyhoeddi'r Papur Gwyn.**

## 6. SEFYDLU SIOP UN STOP AR GYFER YMHOLIADAU TAI

Cyflwynwyd yr adroddiad gan egluro mai bwriad y Siop un Stop yw gweithredu fel drws blaen ar gyfer holl ymholiadau'r gwasanaeth tai a hwyluso'r broses ar gyfer y cwsmer. Esboniwyd bod adroddiad ar hyn wedi bod gerbron y Pwyllgor yn y gorffennol ond bod y gwaith wedi datblygu'n sylweddol ers cyflwyno'r adroddiad honno.

I ddechrau, eglurwyd bod sesiynau ymgysylltu wedi'u cynnal gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys y cymdeithasau tai a'r mudiadau trydydd sector, dros y 18 mis diwethaf er mwyn adnabod cyfleodd i gryfhau'r trefniadau presennol ac unrhyw effaith posibl ar natur y cyswllt y byddai unigolion yn ei gael gyda'r mudiadau. Cynhaliwyd trafodaethau hefyd gyda holl wasanaethau'r adran er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r cyswllt gyda thrigolion yng nghyd-destun yr ymholiadau y byddai'r Siop un Stop yn eu cefnogi.

Nodwyd bod ymgynghoriad cychwynnol gyda'r cyhoedd wedi'i gynnal yn Ionawr 2023 er mwyn derbyn adborth ar brofiadau cyffredinol trigolion Gwynedd sydd wedi cysylltu gyda'r gwasanaeth tai. Nodwyd bod 154 o ymatebion wedi'u derbyn a bod y mwyafrif o'r rhain wedi bod yn gadarnhaol. Rhoddwyd cydnabyddiaeth i'r ffaith bod yr ymgynghoriad wedi amlygu dyhead clir gan y cyhoedd i allu llenwi ffurflen gais ar-lein ar gyfer ceisiadau'r gofrestr tai cymdeithasol gyda dros 70% o ymatebion yn nodi y byddai hyn yn ddatblygiad positif. Nodwyd bod hyn eisoes wedi'i adnabod fel blaenoriaeth i'r adran ond nad oes cynhwysedd o fewn y system bresennol i alluogi pobl i wneud ceisiadau ar-lein. Amlygodd yr ymgynghoriad hefyd bod rhai aelodau o'r cyhoedd yn credu bod angen gwella'r cyfathrebu rhwng y Cyngor a'r cwsmer ac felly byddai gwell presenoldeb ar-lein er mwyn derbyn gwybodaeth heb orfod codi'r ffon neu e-bostio yn fuddiol.

Datblygiad allweddol arall a nodwyd yw penodi arweinydd ar gyfer y Siop un Stop ym mis Chwefror 2022 sydd wedi galluogi'r adran i ymchwilio sut y gellid gosod strwythur priodol i weithrediad y siop. Yn sgil hyn, penderfynwyd ymgorffori'r Uned Tîm Opsiynau Tai i mewn i'r Siop un Stop gan mai dyma'r maes gwaith a oedd yn derbyn y mwyafrif o ymholiadau gan y cyhoedd. Eglurwyd bod strwythur y tîm bellach bron yn gyflawn wrth i ddirprwy arweinydd gael ei benodi ym mis Mai 2023.

Nodwyd bod yr adran wedi ymchwilio mewn i system newydd a fyddai'n eu galluogi i gadw gwybodaeth gynhwysfawr a chyfredol mewn un lle Eglurwyd y byddai'r system sydd wedi'i dewis yn moderneiddio'r gwasanaeth a gynigir i'r cyhoedd a bod y gwaith rhaglenedig sy'n mynd yn ei flaen yn cynnwys trefniadau i sefydlu'r system, cyfnod treialu a dyddiadau ar gyfer hyfforddiant perthnasol. Esboniwyd hefyd bod yr adran wedi penderfynu defnyddio'r system fewnol FFOS ar gyfer gwaith derbyn galwadau a

gwaith gweinyddol dydd-i-ddydd y siop gan ei fod yn gysylltiedig gyda gwefan y Cyngor a chyfrifon y wefan yn barod.

Yn ychwanegol, nodwyd bod y Cyngor wedi penderfynu sefydlu Un Pwynt Mynediad (SPOA) ar gyfer rhai o brosiectau a gwasanaethau sy'n cael eu hariannu gan y Grant Cymorth Tai. Eglurwyd y byddai'r drefn newydd yn symleiddio'r broses i unigolion sy'n cael eu cyfeirio at wasanaethau a darparwyr sydd yn derbyn arian o'r Grant Cymorth Tai. Nodwyd y byddai'r drefn hefyd yn caniatáu gwell trosolwg o holl anghenion yr unigolyn ac yn golygu y gellid defnyddio data cyfredol yn hytrach na gwybodaeth hanesyddol er mwyn cael gwell dealltwriaeth o bwy sy'n derbyn cymorth gan y Grant Cymorth Tai. Nodwyd bod trefn newydd y SPOA yn cael ei threialu gydag unedau mewnol ar hyn o bryd a bod 220 o drigolion Gwynedd eisoes wedi elwa wrth dderbyn gwybodaeth ac arweiniad gyda'u hanghenion cymorth tai perthnasol.

Diolchwyd am yr adroddiad gan ddymuno'n dda i'r tîm wrth iddynt ymgymryd â'r gwaith o gael popeth at ei gilydd ar gyfer sefydlu'r Siop un Stop. Cadarnhawyd mai dechrau'r flwyddyn newydd yw'r targed ar gyfer gweld y system yn mynd yn fyw.

*Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-*

- Mynegodd sawl Cynghorydd rwystredigaeth am y cymhlethdod a'r amser y mae'n cymryd i Gynghorwyr gael yr hawl i drafod ar ran etholwyr ar hyn o bryd a bod angen symleiddio'r system i gynghorwyr allu helpu, gobeithio y bydd y siop yn gallu esmwytho pethau. Mewn ymateb, nodwyd nad oes datrysiad o'r rheidrwydd i'r amser y mae'n cymryd i gael yr hawl i drafod ar ran etholwyr gan mai'r gyfraith, nid y swyddogion, sy'n penderfynu pwy sy'n cael yr hawl i weld y wybodaeth. Ategwyd eu bod bob amser yn barod i edrych am ffyrdd o geisio esmwytho pethau.

- Croesawyd y ffaith y bydd sefydlu'r system newydd yn golygu y bydd modd llenwi ffurflenni cais ar-lein, yn enwedig gan fod digideiddio ffurflenni yn un o'r argymhellion a gyflwynwyd gan Sefydliad Bevan yn eu hadroddiad ar dlodi yn Arfon. Cafwyd cadarnhad y byddai ffurflenni papur yn parhau i fod ar gael i'r unigolion sydd eu hangen hefyd.

- Holwyd a oes modd i gynghorwyr dderbyn gwybodaeth yn fwy cyson am y ceisiadau yn eu wardiau gan fod cynghorwyr yn teimlo yn aml bod pobl leol yn gwybod mwy na nhw am eiddo gwag yn eu wardiau.
    - Cynigodd ambell gynghorydd y byddai sefydlu system ble byddai neges awtomatig yn cael ei hanfon at gynghorwyr i ddweud bod eiddo gwag yn eu ward ac yna neges arall i ddweud pan mae'r eiddo wedi ei osod yn fodd o roi gwell syniad i gynghorwyr o'r hyn sy'n digwydd yn eu ward.
    - Ychwanegwyd y byddai cael gwybod pam fod yr unigolyn/ion penodol wedi derbyn yr eiddo hefyd yn ddefnyddiol gan mai cwynion am bwy sydd wedi derbyn eiddo cymdeithasol y mae cynghorwyr yn eu cael gan amlaf.
    - Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Tai ac Eiddo ei bod yn deall rhwystredigaeth y cynghorwyr ond y byddai rhoi system felly yn ei lle yn llawer o waith ac yn ofyn mawr ar yr adran. Byddai angen cyngor cyfreithiol am ba mor addas fyddai rhannu gwybodaeth o'r fath gyda chynghorwyr.
    - Eglurwyd bod yr adran yn gwneud popeth y gallent o fewn y polisi ar hyn o bryd.
    - Nodwyd y byddai'n bosib iddynt edrych i weld beth sy'n bosib ei wneud i hwyluso pethau ond gofynnwyd am amser i sefydlu'r system fewnol ac i gael y Siop un Stop yn ei lle cyn gallu ystyried hyn.

- Mewn ymateb i gwestiwn a oedd yn holi a yw'r Cyngor wedi colli elfen o atebolrwydd gan nad ydynt yn berchen ar eu heiddo cymdeithasol bellach, nodwyd y byddai'r system newydd yn hwyluso'r trefniadau o fonitro gweithrediad y polisi.

- Diolchwyd i'r Aelod Cabinet am drefnu'r fforwm tai sy'n cael ei chynnal bob ychydig o fisoedd. Nodwyd bod y fforwm yn ffordd dda o rannu gwybodaeth a rhoi cyfle i aelodau ofyn cwestiynau a lleisio barn mewn ffordd anffurfiol. Ategwyd y byddai'n ddefnyddiol cael fforwm/sianel i allu siarad gyda swyddogion y cymdeithasau tai yn ogystal, ac y byddai'n braf gweld cynrychiolaeth o'r cymdeithasau tai yn mynychu cyfarfodydd pwyllgor craffu.

**PENDERFYNWYD**

a) **Derbyn a nodi'r adroddiad.**
b) **Derbyn adroddiad cynnydd ymhen blwyddyn.**
c) **Gofyn i'r Aelod Cabinet a swyddogion yr Adran Tai gysylltu gyda'r cymdeithasau tai i weld a oes modd iddynt ddod i gyfarfod o'r pwyllgor craffu a threfnu ffyrdd o hwyluso cyfathrebiad rhwng y cynghorwyr a'r cymdeithasau tai.**

**7. LLETY CEFNOGOL CYFFREDINOL GAN GYNNWYS GWASANAETHAU ANABLEDDAU DYSGU, IECHYD MEDDWL A CHEFNOGAETH I FERCHED**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant yr adroddiad er mwyn darparu cyd-destun a diweddariad ar y sefyllfa yng nghyd-destun llety a chefnogaeth i unigolion ag anableddau dysgu. Diolchodd i'r Uwch Reolwr Anableddau Dysgu ac i'r tîm cyfan am eu gwaith gan ddatgan ei bod hi'n anodd cyfleu drwy eiriau pa mor bwysig yw'r gwaith yma.

Eglurwyd bod Cynllun Gweithredol Strategol Anabledd Dysgu 2022 i 2026 Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r agenda ar gyfer gwasanaethau i unigolion ag anableddau dysgu a bod yr adran yn cydweithio gyda phartneriaid er mwyn cynllunio a datblygu modelau llety a chefnogaeth sy'n addas i gwrdd â'r anghenion hyn. Nodwyd bod 70 o bobl yn disgwyl am lety ar hyn o bryd a bod y rhain yn cael eu rhoi mewn tri chategori: yr unigolion sydd ag angen blaenoriaeth sef llety o fewn y flwyddyn nesaf; yr unigolion sydd angen llety o fewn y ddwy flynedd nesaf a'r unigolion sydd angen cynllunio ar eu cyfer dros y blynyddoedd nesaf. Nodwyd bod yr adran yn cydweithio gyda'r Adran Tai a'r cymdeithasau tai a bod y cysylltiad hwn yn hollbwysig. Eglurwyd bod gwaith newydd ei gwblhau ar dŷ newydd yn Y Groeslon a fyddai'n gallu darparu cefnogaeth ar gyfer tri unigolyn ac mai'r gobaith yw gallu cartrefu pobl erbyn mis Tachwedd.

Esboniwyd bod y Cyngor yn meddu ar ddarlun eithaf llawn o'r sefyllfa yn y sir a'u bod yn cwblhau asesiadau parhaus o deuluoedd/unigolion sy'n dod trwy'r system a bod paratoi tuag at y dyfodol yn rhan o becyn pawb. Cadarnhawyd hefyd bod y Tîm Anabledd Dysgu a Thîm Derwen yn cwrdd yn gyson i drin a thrafod sefyllfaoedd unigolion sydd mewn oed trosglwyddo, hynny yw oddeutu 6 mis bob ochr i 18 mlwydd oed, er mwyn paratoi a chydweithio ar gyfer y plant hynny sy'n troi yn oedolion.

*Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-*

- Diolchwyd am yr adroddiad a chroesawyd y datblygiadau.

- Nodwyd nad oedd cynnwys yr adroddiad yn cyfateb i deitl yr eitem ar yr agenda a bod yr eitem ar yr agenda yn llawer ehangach na'r hyn a roddwyd yn yr adroddiad.
    - Mewn ymateb, nodwyd bod hyn yn sylw digon teg gan gadarnhau bod yr elfennau eraill yn rhan o'r darlun er nad oes cyfeiriad atynt yn yr adroddiad.
    - Eglurwyd bod yr elfen o ran cefnogaeth i ferched yn dueddol o orgyffwrdd gyda meysydd sydd o dan gyfrifoldeb yr Adran Tai ac efallai bod hyn yn enghraifft o faes lle gellir cryfhau'r cydweithrediad rhwng yr adrannau.

- Mynegwyd pryder bod diffiniad anabledd dysgu yn rhy gul a bod tueddiad i ganolbwyntio ar y diffiniad yn unig, heb ystyried y modd y mae'r anghenion yn debyg iawn i anghenion iechyd meddwl. Nodwyd y byddai gwell cydweithrediad rhwng y gwasanaeth anabledd dysgu a'r gwasanaeth iechyd meddwl yn fuddiol iawn yn hytrach na gosod y materion mewn blociau ar wahân.

- Nodwyd bod corff sy'n gyfatebol i Arolygaeth Gofal Cymru yn arolygu gwasanaethau o'r math hwn yn Yr Alban ond nad yw hyn yn digwydd yng Nghymru gan mai dim ond edrych ar y gwasanaeth yn ei gyfanrwydd y mae Arolygaeth Gofal Cymru. Yn sgil hyn, gofynnwyd beth mae Cyngor Gwynedd yn ei wneud i arolygu'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu yn y lletyau cefnogol er mwyn sicrhau ansawdd ac nad oes unrhyw broblemau na chamdriniaeth?
    - Mewn ymateb, cadarnhawyd bod y Cyngor yn blaenoriaethu diogelwch yr unigolion yn y lletyau a bod y partneriaid yn darparu gwasanaeth da iawn.
    - Derbyniwyd bod problemau yn gallu codi o fewn yr asiantaethau ac o fewn darpariaeth y Cyngor ei hun a nodwyd y byddai'r Cyngor yn camu mewn os oes unrhyw broblem yn codi.
    - Nodwyd bod y Cyngor yn ceisio sicrhau bod y gwaith monitro yn cael ei wneud yn briodol ond nad yw hyn bob amser yn warant 100%.
    - Rhoddwyd cydnabyddiaeth i'r ffaith nad yw'r Tîm Sicrwydd Ansawdd mor gryf ac y dylai fod ac nad ydynt yn gallu ymweld â gwasanaethau, yn fewnol ac yn allanol, yn ddigon aml ond bod y tîm yn ceisio gwneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael. Nodwyd bod newidiadau'n cael eu gwneud i sicrhau bod y tîm yn gallu cyrraedd mwy o'r ddarpariaeth.
    - Cadarnhawyd nad yw'r Arolygaeth yn mynd i mewn i arolygu'r eiddo hyn yn benodol fel y maent yn gwneud yng nghyd-destun cartrefi preswyl.
    - Eglurwyd felly bod cydweithrediad rhwng Arolygaeth Gofal Cymru a'r Tîm Sicrwydd Ansawdd yn bwysig yn y cyd-destun hwn.

- Mynegwyd balchder o weld cyfeiriad at y cynlluniau i ail-ddatblygu cartref Fron Deg yng Nghaernarfon a holwyd os oes modd cael diweddariad ar hynny.
    - Mewn ymateb, cydnabuwyd bod y gwaith wedi bod ar y gweill ers blynyddoedd a bod yr adran yn cydweithio'n agos gyda'r Adran Tai arno.
    - Eglurwyd bod cynnydd wedi'i wneud. O ran y cyllid, esboniwyd bod trafodaethau yn mynd yn ei blaen ar hyn o bryd. Mae'n bosib y bydd y datblygiad yn cynnwys unedau i'w rhentu a fydd yn golygu y bydd modd defnyddio'r taliadau rhent i ad-dalu peth o'r costau adeiladu.
    - Nodwyd bod yr adran yn edrych ar y posibiliadau o dynnu arian o gronfeydd rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer darpariaeth gofal a thai.

- Croesawyd y bwriad i gael pobl sydd wedi eu lleoli yn allsirol yn ôl i Wynedd drwy geisio darparu mwy o wasanaethau yn lleol.
- Holwyd cwestiynau am y 21 unigolyn sydd mewn lleoliad allsirol.
    - Cadarnhawyd bod yr unigolion wedi'u lleoli'n allsirol oherwydd yr arbenigedd sy'n cael ei gynnig yno.
    - Ychwanegwyd hefyd bod rhai unigolion wedi bod yn y lleoliadau hyn ers yn blant ac felly'n eu gweld fel cartref bellach. Pwysleisiwyd mai'r peth pwysig

yw sicrhau bod trafodaethau cyson yn cael eu cynnal gyda'r unigolion yma i weld beth yw eu dymuniadau nhw am aros neu ddychwelyd i Wynedd.

- Cyfeiriwyd at y cynlluniau ar gyfer safle Penrhos, Pwllheli gan nodi rhwystredigaeth am ba mor hir y mae popeth yn cymryd i ddisgyn i'w le. Holwyd a oes posib cael unrhyw ddiweddariad?
    - Mewn ymateb, nodwyd bod ymrwymiad y partneriaid i gyd ym Mhenrhos yn dal i fod yn ei le er bod y partneriaid dan bwysau ariannol trwm.
    - Eglurwyd bod unrhyw ddatblygiad yn ddibynnol ar beth sy'n digwydd yn yr wythnosau nesaf o ran caniatâd cynllunio. Ategwyd bod llawer o waith wedi mynd ymlaen yn y cefndir a bod pethau'n edrych yn addawol.

- Mewn ymateb i gwestiwn am y cydweithio sy'n digwydd ar draws y gwasanaethau oedolion, nodwyd bod cydweithrediad yn hollbwysig gan fod nifer o'r achosion yn berthnasol i fwy nac un adran. Eglurwyd bod y gweithwyr cymdeithasol, y therapyddion galwedigaethol ac unigolion eraill yn y timau yn cydweithio'n dda gyda'i gilydd a bod ganddynt berthynas waith da gyda'u cydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd.

- Ategodd yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant bod y timau yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd ac yn sicrhau bod yr unigolyn yn ganolog.

**PENDERFYNWYD**

a) **Derbyn a nodi'r adroddiad ar sefyllfa llety cefnogol i unigolion ag anableddau dysgu yng Ngwynedd yn unig gan nad oes cyfeiriad at iechyd meddwl a chefnogaeth i ferched yn yr adroddiad.**
b) **Gofyn i'r swyddogion rannu gwybodaeth gydag aelodau'r pwyllgor am lety cefnogol sy'n cael ei ddarparu gan y gwasanaeth iechyd meddwl ac ar gyfer cefnogaeth i ferched.**

## 8. BRIFF DRAFFT GRŴP TASG A GORFFEN CYNLLUN AWTISTIAETH

Cyflwynwyd y briff drafft gan fod aelodau'r Pwyllgor Craffu Gofal wedi penderfynu yn eu cyfarfod ym mis Ebrill nad oeddynt wedi derbyn gwybodaeth ddigonol am Gynllun Awtistiaeth Gwynedd. Oherwydd hyn, roeddynt yn awyddus i fynd i fwy o fanylder am y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig ac felly penderfynwyd sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen.

Penderfynwyd y byddai'r Grŵp Tasg a Gorffen yn cynnwys aelodau o'r Pwyllgor Craffu Gofal a'r Pwyllgor Craffu Addysg & Economi, yn ogystal â chynrychiolaeth o'r Adran Plant, Adran Oedolion, Adran Addysg a'r Bwrdd Iechyd. Gofynnwyd am dri chynrychiolydd o'r Pwyllgor Craffu Gofal i ymgymryd â gwaith y grŵp tasg a gorffen.

*Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-*

- Nodwyd bod y briff yn gyffredinol iawn ac er bod penderfyniad y pwyllgor mis Ebrill yn cyfeirio at drafodaeth o weithrediad y cynllun yn ei gyfanrwydd gyda'r tîm newydd, nad oedd cyfeiriad o hynny yn y briff.
    - Mewn ymateb, eglurwyd mai camgymeriad oedd hynny ac y dylai'r geiriad gyd-fynd gyda geiriad yr hyn a benderfynwyd yn y pwyllgor.

- Cynigwyd bod y Grŵp Tasg a Gorffen yn edrych ar y Cynllun Awtistiaeth yn ei gyfanrwydd yn gyntaf ac efallai y byddai modd gweithredu neu edrych yn fanylach

ar faterion penodol yn dilyn argymhellion y grŵp. Penderfynwyd y byddai hyn yn ffordd deg o roi cyfle i'r tîm newydd wneud gwahaniaeth a gweithredu eu rhaglen waith.

- Nodwyd y byddai rhagor o gynrychiolaeth o'r adran oedolion yn fuddiol gan fod mwy nag un tîm yn delio gyda'r mater a dadleuwyd ei bod hi'n hanfodol bod y Cydlynydd Prosiect Gwasanaethau Awtistiaeth yn rhan o'r drafodaeth.

Eglurwyd na fyddai'r Grŵp Tasg a Gorffen yn un hir, oddeutu 2-3 gyfarfod ar y mwyaf. Rhoddodd y Cynghorydd Jina Gwyrfai ei henw ymlaen i fod yn aelod o'r Grŵp Tasg a Gorffen. Oherwydd nad oedd holl aelodau'r Pwyllgor yn bresennol yn y cyfarfod, penderfynwyd y byddai e-bost yn cael ei anfon i aelodau'r Pwyllgor Craffu Gofal i ofyn pwy arall sydd gan ddiddordeb i fod yn rhan o'r grŵp. Os na fyddai enwau'n dod i law, yna byddai'r gwahoddiad yn cael ei ymestyn i weddill aelodau'r Cyngor. Nodwyd y byddai'r gynrychiolaeth o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn cael ei gadarnhau yng nghyfarfod y pwyllgor ar y 9fed o Dachwedd.

**PENDERFYNWYD**

a) **Mabwysiadu'r briff ac ychwanegu y bydd y grŵp yn edrych ar y Cynllun Awtistiaeth yn ei gyfanrwydd.**
b) **Ethol y Cynghorydd Jina Gwyrfai i fod yn rhan o'r Grŵp Tasg a Gorffen Cynllun Awtistiaeth.**
c) **Ymgysylltu gyda holl aelodau'r Pwyllgor Craffu Gofal drwy e-bost er mwyn derbyn dau enw arall i fod yn rhan o'r grŵp tasg a gorffen.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30yb a daeth i ben am 2.20yh.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Craffu** |
| **DYDDIAD** | **23 Tachwedd 2023** |
| **TEITL** | **Gwasanaeth Gofal Dydd** |
| **PWRPAS** | **Angen sicrwydd bod darpariaeth gofal dydd o ansawdd ar draws y Sir** |
| **AWDUR** | **Mari Wynne Jones** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Nid yw’r model traddodiadol o ddarparu Gofal Dydd wedi ei adolygu yng Ngwynedd ers blynyddoedd lawer. Rydym felly’n gwerthfawrogi’r cyfle i hysbysu’r Pwyllgor Craffu Gofal o’r trefniadau sydd mewn lle gan y Gwasanaeth Oedolion i adolygu’r ddarpariaeth honno. Bydd yr adolygiad yn ystyried sut y gallwn gefnogi unigolion sydd ag anghenion gofal a chymorth i gwrdd â'i amcanion llesiant o fewn eu cymunedau lleol.

1.2 Cyflwynwyd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar 1 Ebrill 2016, ac mae'n darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gofal a chymorth yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn newid y ffordd y mae anghenion pobl yn cael eu hasesu, a'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu gan hyrwyddo amrywiaeth o gefnogaeth sydd ar gael o fewn y gymuned i leihau'r angen am gymorth ffurfiol.

1.3 Nid yw’r model traddodiadol o ddarparu Gofal Dydd yng Ngwynedd wedi ei addasu i gyfarch anghenion y Ddeddf a sicrhau beth sy’n bwysig i drigolion Gwynedd. Mae'r model presennol yn canolbwyntio ar ddarpariaeth gofal ar gyfer pobl mewn adeiladau yn hytrach na chefnogi pobl sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth i barhau i fynychu gweithgareddau cymunedol.

1.4 Mae hyn hefyd yn amserol iawn wrth ystyried y gwaith diweddar gan Lywodraeth Cymru - ***Review of Day Opportunities and Respite/Short Break Services, 2023*** sy’n nodi bod y pandemig wedi arwain at ddiwygiadau hanfodol i’r ddarpariaeth, ac yn adnabod llawer o faterion allweddol wrth symud ymlaen.

1.5 Mae’r adolygiad yn gyfle i ni ystyried ffyrdd gwahanol, mwy addas a hyblyg o ddarparu cefnogaeth a gwasanaethau o ansawdd sydd hefyd yn werth am arian.

## 2. Y MODEL TRADDODIADOL

2.1 Arferai’r Cyngor ddarparu rhaglen o weithgareddau gofal dydd traddodiadol mewn lleoliadau penodol yn y sir ar gyfer oedolion oedd angen cefnogaeth, gan staff proffesiynol. Roedd y canolfannau yma’n galluogi pobl hŷn i gymdeithasu a chymryd rhan mewn gweithgareddau penodol, wrth roi cyfle i’r sawl oedd yn gofalu amdanynt o ddydd i ddydd gael ychydig o seibiant. Roedd y ddarpariaeth wedi ei gyfyngu i leoliadau mewn prif ganolfannau, ar amseroedd penodol, gyda bwydlen o

weithgareddau eithaf cyfyng. Byddai'n rhaid i unigolion deithio i mewn i'r canolfannau yma, ac roedd trafnidiaeth yn cael ei drefnu ar eu cyfer.

## 3. BETH SY'N CAEL EI GYNNIG FEL DARPARIAETH YNG NGWYNEDD

3.1 Cyn cofid, roedd canllaw mynediad i wasanaeth traddodiadol Y Cyngor yn nodi fod angen i'r unigolyn fod gydag anghenion gofal personol neu anghenion yn ymwneud a chyflyrau cof i fynychu gwasanaethau'r Cyngor. Os mai anghenion llesiant lefel isel sydd ei angen megis cwmnïaeth, cymdeithasu a phryd o fwyd, yna mae disgwyliad i ddarpariaeth gymunedol/trydydd sector gwrdd â'r angen. Dyma'r darpariaethau oedd yn cael eu darparu gan Gyngor Gwynedd cyn cofid:

| Canolfannau Dydd Cyngor Gwynedd | Gofal dydd sy'n cael ei gomisiynu. | Darpariaeth seibiannau byr sydd ar gael | Darpariaeth Gofal dydd arbenigol Dementia |
|---|---|---|---|
| Bryn Dysynni Tywyn – x 3 gwaith yr wythnos<br><br>Plas Hedd Bangor x 3 gwaith yr wythnos<br><br>Encil y Coed x 3 gwaith yr wythnos<br><br>Y Ganolfan Blaenau Ffestiniog x 3 gwaith yr wythnos | Gwasanaeth gofal dydd mewn cartrefi preswyl y Cyngor<br><br>Gwasanaeth gofal dydd mewn cartrefi preswyl preifat.<br><br>Gwasanaeth gofal dydd yng nghanolfan Cartref Bontnewydd (Age Cymru). | Gweithwyr Cefnogol Dementia -cefnogaeth un i un ar gyfer unigolion a'i gofalwyr am ychydig oriau'r wythnos.<br><br>Cartrefi preswyl y cyngor yn darparu cefnogaeth gofal ysbaid hyd at bythefnos. | Plas Hedd Bangor x 2 gwaith yr wythnos (CG&BIBC)<br><br>Hafod Hedd, Chwilog x 3 diwrnod yr wythnos (CG a BIBC) |

3.2 Mae ymateb i'r heriau sydd wedi glanio ar ein drws ffrynt yn sgîl Cofid 19 wedi ein cyflwyno efo gwahoddiad i roi ymdrech gwirioneddol i ail feddwl am y ffordd y mae gofal dydd yn cael ei ddarparu i'n dinasyddion yng Ngwynedd. Mae'r cyfnod wedi dangos pa mor bwysig yw sicrhau cyfleoedd cymdeithasol i unigolion, ac i sicrhau seibiannau byr o ofalu i ofalwyr. Mae'n gyfle i ddysgu o'r profiadau, ac i symud i ffwrdd o wasanaethau sydd yn seiliedig ar anabledd, oedran, adeiladau, ac i edrych ar gyfleoedd i unigolion adennill cysylltiadau cymunedol.

3.3 Mae ein gwasanaethau yn rhai traddodiadol sydd heb gael eu hadolygu na'i gwerthuso ers cyfnod maith o amser. Tydi ein gwasanaethau ddim yn rhai sy'n cwrdd ag amcanion unigol a phersonol yr unigolion ac mae yna ddiwylliant yn bodoli o ffitio pobol i wasanaethau. Roedd y model yn anaddas iawn ac yn cyflwyno llawer o risgiau yn ystod cofid, ac o ganlyniad roedd rhaid cau'r canolfannau. Byddai dod a nifer fawr o bobl at ei gilydd i un safle wedi achosi pryder mawr, ac roedd problemau gyda safon rhai o'r adeiladau hynny hefyd.

3.4 Mae ein canolfannau dydd Plas Hedd, a Bryn Dysynni wedi ail agor eu drysau yn raddol ers cofid, ond mae problemau staffio yn rhwystr mewn sawl ardal, ac mae'r canolfannau eraill yn parhau i fod ar gau heb ail agor y drysau.

3.5 Nid ydi Canolfannau Dydd traddodiadol y Cyngor wedi eu lleoli yn gytbwys ar draws y Sir chwaith, ac mae 3 Canolfan Ddydd traddodiadol wedi cau yn ystod y blynyddoedd diwethaf -

- Canolfan Dydd Cysgod y Coleg, Bala, gyda Age Cymru wedi datblygu gwasanaethau llesiant yn yr ardal
- Canolfan Dydd Noddfa Madog, Porthmadog, gyda'r mynychwyr wedi eu symud i Ganolfannau Dydd Criccieth a Blaenau Ffestiniog
- Canolfan dydd Maesincla Caernarfon, gyda Age Cymru wedi datblygu gwasanaeth yn yr ardal

3.6 Mae datblygiadau'r hybiau cymunedol ar hyd a lled y sir wedi arwain at gyfleoedd i bawb fod yn cydweithio ar lefel lleol iawn. Mae hyn wedi cychwyn mewn ambell le'n barod e.e. Porthi Dre yng Nghaernarfon ble mae'r TAC lleol yn cydweithio efo'r Hwb a'r darparwr gofal er mwyn cynnal gweithgareddau ar gyfer pobl hŷn yr ardal na fyddai'n medru codi allan fel arall efallai.

3.7 Byddai'r adolygiad yn gyfle i adnabod a datblygu cyfleoedd cydweithio gyda phartneriaid eraill ymhellach, a chynnig amrywiaeth o wasanaethau gwahanol. Byddai'r ffocws ar adeiladu ar gryfderau'r mynychwyr, cryfhau sgiliau a dysgu sgiliau newydd, a rhoi blas ar brofiadau newydd.

## 4. EIN GWELEDIGAETH

4.1 Ein gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant yw bod pawb o bob oedran yn derbyn y gefnogaeth y maent ei hangen yn y ffordd fwyaf addas a chyfleus iddyn nhw. Gan fod anghenion pob unigolyn a'u teulu / gofalwyr yn wahanol, er mwyn iddynt barhau i fyw eu bywydau fel y dymunant, mae angen i ni addasu ein gwasanaethau i fod wedi eu teilwra yn agosach at wir anghenion y rhai hynny sydd angen ein cymorth. Byddwn hefyd yn buddsoddi i ddatblygu darpariaeth i gael mwy o seibiant i unigolion a'u teulu neu ofalwyr yn ein canolfannau preswyl.

4.2 Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn cynnal adolygiad, yn ymgynghori ac ymgysylltu am drefniadau darpariaeth gofal dydd o fewn y Gwasanaeth Oedolion yng Ngwynedd.

4.3 Bydd cynnal adolygiad i drefniadau darpariaeth Gofal Dydd o fewn y Gwasanaeth Oedolion yn sicrhau cyfleoedd i bawb, ac i oresgyn unrhyw anghenion iechyd a gofal. Bydd yn gyfle i gryfhau iechyd a llesiant unigolion, gan ganolbwyntio ar

gryfderau, targedu unigrwydd ac arwahanu cymdeithasol, gwella a chodi hyder a sgiliau sylfaenol byw.

**5. ARGYMHELLIAD**

5.1 Argymhellwn ein bod yn adolygu'r ddarpariaeth presennol, ac yn symud i ffwrdd o'r term gofal dydd, a gwasanaethau ynghlwm ag adeiladau. Byddwn yn symud ymlaen i ganolbwyntio ar sut rydym yn gallu cyfarch a chefnogi llesiant unigolion a'i gofalwyr mewn amryw o wahanol ffyrdd. Rydym angen gwasanaethau hyblyg, sy'n cwrdd a'r angen.

# CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Pwyllgor Craffu Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **23 Tachwedd 2023** |
| **Aelod:** | **Y Cynghorydd Dilwyn Morgan, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Rhion Glyn, Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Darparu, Adran Oedolion Iechyd a Llesiant** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Trefniadau Rheoli a Chynnal Cartrefi Gofal** |

## 1 Pwrpas yr adroddiad

1.1 Derbyniwyd cais gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'r Pwyllgor Gofal graffu diffyg gweithredu gweithdrefnau rheolaethol mewn Cartrefi Gofal yn sgil adroddiad archwilio mewnol a gyflwynwyd iddynt fis Chwefror 2023.

1.2 Yn dilyn archwiliad mewnol cytunwyd ar gamau gweithredu ar gyfer Cartref Plas Gwilym, Cartref Hafod Mawddach a Chartref Bryn Blodau er mwyn gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

1.3 Mae'r Pwyllgor yn awyddus i'r Pwyllgor Craffu Gofal graffu a yw'r camau gweithredu wedi eu gweithredu ac a yw'r gweithdrefnau rheolaethol yn cael eu dilyn gan y cartrefi gofal.

## 2 Cefndir i drefniadau Rheoli a Chynnal Cartrefi Gofal

2.1 Mae gan Gyngor Gwynedd 13 cartref gofal sy'n cefnogi ac yn gofalu am oedolion ar draws y Sir.

2.2 Mae dau o'r cartrefi rheini yn gartrefi gofal sy'n cefnogi ac yn gofalu am unigolion sydd ag anabledd dysgu.

2.3 Mae'r x11 cartref arall yn gofalu'n bennaf am oedolion hyn, ond hefyd yn cefnogi unigolion gydag anableddau corff. Mae'r cartrefi rhain yn disgyn i dri categori.

| | |
|---|---|
| Cartref Gofal Dementia Arbenigol | X1 Cartref |
| Cartref Gofal Preswyl Cyffredinol | X5 Cartref |
| Cartref Gofal Preswyl Cyffredinol / Dementia Arbenigol | X5 Cartref* |

*Noder fod y niferoedd yma ar sail fod yr Uned Dementia yn Hafod Mawddach, Bermo wedi agor.

2.4 Yn benodol o ran trefniadau rheoli dylid nodi fod y ddau gartref Anableddau Dysgu (Y Frondeg, Caernarfon a Tan y Marian, Pwllheli) o fewn strwythur y Gwasanaeth Anableddau Dysgu, ac yna'r x11 cartref y cyfeirir atynt yn rhan 2.3 o'r adroddiad hwn o fewn y 'Gwasanaeth Darparu'.

2.5 Mae'n ofyn statudol fod pob cartref gofal yng Nghymru fod wedi cofrestru gydag Arolygaeth Gofal Cymru. Fel rhan o'r cofrestriad hwnnw rhaid gallu tystiolaethu fod y Cartref yn gymwys i gefnogi a gofalu am breswylwyr y Cartref.

2.6 Nodir y swyddi gwahanol sy'n bodoli yn ein cartrefi gofal mewnol.

| **Rôl** | **Niferoedd** |
|---|---|
| Rheolwr Cofrestredig | X1 i bob cartref |
| Is Reolwr | X1 i bob cartref |
| Uwch Gymhorthydd Gofal | X1/ X2 i bob cartref |
| Cymhorthydd Gofal | Niferus ac yn ddibynnol ar faint y Cartref |
| Cymhorthydd Gofal Achlysurol | Niferus ac yn ddibynnol ar faint y Cartref |
| Cogydd | X1 i bob Cartref |
| Cogydd Cynorthwyol | X2 / X3 i bob cartref |
| Cymhorthydd Domestig | Tueddu i fod yn un swydd rhan amser i bob cartref |
| Gweinyddwr | Gweinyddwyr yn tueddu i gefnogi 3 - 4 cartref yr un |

2.7 Mae'r cartrefi hyn yn cael eu harchwilio yn gyson gan ystod eang o archwilwyr mewnol ac allanol. Noder isod restr o'r prif archwiliadau.

| **Archwiliadau Mewnol** | **Archwiliadau Allanol** |
|---|---|
| Archwiliad y Tim Sicrwydd Ansawdd | Archwiliad Arolygaeth Gofal Cymru |
| Archwiliad Archwilio Mewnol | Archwiliad Meddyginiaeth (Y Bwrdd Iechyd) |
| Archwiliad o'r Adeilad (Gwasanaeth Eiddo) | |
| Archwiliad Tan (Gwasanaeth Eiddo) | |
| Archwiliad Hyledid Bwyd (Iechyd yr Amgylchedd) | |

2.8 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sylw'n benodol i archwiliadau sydd wedi eu cynnal gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor. Yn ystod 2022/23 cynhaliodd Gwasanaeth Archwilio Mewnol archwiliadau mewn x3 Cartref Gofal Mewnol. Noder nad oedd unrhyw un o'r cartrefi hyn yn gartrefi gofal anabledd dysgu.

## 3 Canlyniadau'r archwiliadau mewnol gynhaliwyd yn 2022/23.

3.1 Bwriad a chwmpas yr archwiliadau hyn oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli a chynnal y cartref yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr

archwiliadau yn cwmpasu gwirio bod trefniadau'r cartrefi yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau a derbyn incwm, iechyd a diogelwch, a monitro perfformiad ynghyd a sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu.

3.2 Ar sail gwirio'r rheolaethau ar gyfer lliniaru'r risgiau, nodwyd y lefelau risg canlynol ar gyfer y tri cartef dan sylw:

| | |
|---|---|
| Cartref Plas Gwilym, Penygroes | **CYFYNGEDIG** |
| Cartref Hafod Mawddach, Bermo | **CYFYNGEDIG** |
| Cartref Bryn Blodau, Llan Ffestiniog | **CYFYNGEDIG** |

3.3 Gweler isod ddisgrifiad o'r lefelau sicrwydd oedd o dan ystyriaeth:

| | |
|---|---|
| **UCHEL** | Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. |
| **DIGONOL** | Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach. |
| **CYFYNGEDIG** | Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth a'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt. |
| **DIM SICRWYDD** | Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion. |

3.4 Fel rhan o'r tri archwiliad cytunwyd ar gamau gweithredu er mwyn lliniau'r risgiau a amlygwyd. Mae copïau llawn o'r adroddiadau a'r rhaglenni gweithredu wedi eu cynnwys yn Rhaglen y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, 9fed o Chwefror 2023 (Eitem 11).

3.5 Yn ystod mis Hydref eleni mae archwiliad dilynol wedi ei gynnal yn y tri Cartref dan sylw er mwyn sicrhau fod y Gwasanaeth / Cartref wedi gweithredu ar y camau gweithredu ymrwymwyd iddynt.

3.6 Ar sail yr archwiliadau dilynol, nodwyd y lefelau sicrwydd canlynol:

| | |
|---|---|
| Cartref Plas Gwilym, Penygroes | **DIGONOL** |
| Cartref Hafod Mawddach, Bermo | **DIGONOL** |
| | |

| Cartref Bryn Blodau, Llan Ffestiniog | **DIGONOL** |
|---|---|

3.7 Un unol a'r disgrifiad sydd ar gyfer lefel Digonol yn nhabl yn 3.3, mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

**Plas Gwilym**

- *Sicrhau fod y cynlluniau gofal yn derbyn adolygiadau amserol, a nodiadau dyddiol yn cael eu cwblhau ar amser.*
- *Sicrhau fod pob aelod staff yn derbyn goruchwyliaeth bob 3 mis.*
- *Sicrhau fod pob aelod staff y cartref yn cwblhau hyfforddiant Symud a Thrin, Cymorth Cyntaf, a Diogelu, yn ogystal â chwblhau modiwlau e-ddysgu mandadol y Cyngor.*
- *Sicrhau fod pob aelod staff yn darllen y polisi Diogelu Oedolion Bregus, gan arwyddo i ddatgan hynny.*

**Hafod Mawddach**

- *Sicrhau fod pob aelod staff yn derbyn goruchwyliaeth pob 3 mis.*
- *Sicrhau fod staff yn cwblhau'r modiwlau hyfforddiant e-ddysgu mandadol.*
- *Sicrhau fod pob aelod staff sydd yn gyfrifol am ddarparu meddyginiaeth yn derbyn prawf cymhwysedd blynyddol.*

**Bryn Blodau**

- *Amserlen mewn lle i sicrhau fod pob aelod staff yn derbyn goruchwyliaeth bob 3 mis.*
- *Sicrhau fod pob aelod staff gyda hyfforddiant Symud a Thrin, Cymorth Cyntaf, a Diogelu cyfredol, yn ogystal â chwblhau modiwlau hyfforddiant e-ddysgu mandadol.*
- *Sicrhau fod pob aelod staff sydd yn gyfrifol am ddarparu meddyginiaeth yn derbyn prawf cymhwysedd blynyddol.*
- *Sicrhau fod pob aelod staff yn darllen y polisi Diogelu Oedolion Bregus, a'r Polisi Meddyginiaeth gan arwyddo i ddatgan hynny.*

3.8 Er bod camau gweithredu yn parhau credir fod canlyniad yr archwiliadau dilynol yn y tri Cartref yn bositif ac yn arddangos fod cynnydd wedi bod yn dilyn yr archwiliadau gwreiddiol.

3.9 Byddwn fel Gwasanaeth Darparu ac fel cartrefi unigol yn monitro ac yn sicrhau fod y camau gweithredu sy'n parhau yn cael eu gweithredu. Gellir rhoi sicrwydd fod trefniadau monitro cadarn mewn lle er mwyn hwyluso hyn.

3.10 Rhagwelir y bydd copïau llawn o'r adroddiadau dilynol hyn yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y 14eg o Ragfyr.

## 4 Cyd-estyn cyffredinol ac ystyriaethau pellach

4.1 Mae nifer o'r materion sydd yn parhau i fod angen sylw yn ymwneud a materion staffio, megis hyfforddiant a goruchwyliaeth. Ni ellir peidio ag adrodd ar y materion hyn heb nodi'r sefyllfa heriol sy'n parhau yn y maes gofal o ran swyddi gwag a'r angen i'w llenwi.

4.2 Mae'r sefyllfa o ran swyddi gwag yn amrywio o gartref gofal i'r llall, ond dros y cyfnod diweddar gellir adrodd fod pob un ohonynt wedi wynebu heriau ble maent wedi gorfod gofyn i staff weithio oriau ychwanegol neu ddefnyddio staff asiantaeth i lenwi bylchau. Mae'r bylchau yn amrywio hefyd o fod yn swyddi gofalu rheng flaen i swyddi arwain a rheoli yn y Cartref.

4.3 Fel y gellir dychmygu mae bylchau staffio o ran diffyg cymhorthyddion gofal yn aml wedi golygu fod y rheolwr yn gorfod blaenoriaethu'r gwaith o ofalu am drigolion uwchlaw unrhyw beth arall. Yn aml mae Rheolwyr ein cartrefi gofal wedi adrodd eu bod wedi gorfod tynnu staff yn ôl y funud olaf o fynychu hyfforddiant er mwyn sicrhau fod ganddynt lefelau digonol o staff yn gweithio yn y cartref. Yn yr un modd mae ein Rheolwyr eu hunain ar brydiau yn gorfod gweithio shifftiau gofalu, sy'n gallu golygu sgil effaith negyddol wedyn ar faterion rheoli yn y cartref. Nid yw'r sylwadau o ran hyn yn cael eu nodi'n benodol mewn ymateb i'r tri archwiliad dan sylw, ond yn hytrach yn sylwadau cyffredinol sy'n berthnasol i oll o'n cartrefi gofal ar draws y Sir.

4.4 Dylid cymryd y cyfle hefyd i nodi'r adolygiad cynhwysfawr fudodd i swydd ddisgrifiadau nifer o swyddi rheng flaen y maes gofal yn ystod 2022/23 . Fe arweiniodd yr adolygiad at newidiadau mewn dyletswyddau ac, mewn amryw i sefyllfa, gynnydd yng ngraddfa cyflog y swydd. Cafodd yr adolygiad hwn effaith ar nifer o'r rolau sy'n bodoli yn ein cartrefi gofal (Tabl 2.6). Gweithredwyd ar y newidiadau hyn yn Ebrill 2023 a byddwn dros y misoedd yn parhau i fonitro ei effaith o ran ein hymdrechion i recriwtio a chadw staff.

4.5 Rydym ers blynyddoedd bellach yn gweld fod anghenion gofal trigolion yn dwysau. Beth yr ydym yn ei weld ym mhob un o'n cartrefi erbyn hyn yw fod y trothwy mynediad (o ran dwysder anghenion) yn llawer uwch nag a welwyd yn y gorffennol. Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Craffu yn 20.04.23 a oedd yn amlygu'r cynnydd mewn galw sydd am ddarpariaeth dementia yn benodol.

4.6 Wrth ystyried y tueddiadau cenedlaethol a lleol, mae gwaith i'w wneud er mwyn ystyried y posibiliadau sydd o fewn ein darpariaeth fewnol i gynyddu'r ddarpariaeth gofal dementia arbenigol. Er fod 6 cartref allan o'n 11 cartref (tabl 2.3) yn darparu gofal dementia arbenigol, mae'r nifer o wlâu preswyl cyffredinol o gymharu â gwlâu dementia arbenigol yn sylweddol uwch (74% o'r gwlâu yn preswyl cyffredinol a 26% yn wlâu dementia arbenigol). Noder fod y ffigwr hwn (26%) ar sail fod oll o'r unedau dementia arbenigol sydd wedi cael eu datblygu yn ddiweddar wedi eu cwblhau ac yn cael eu defnyddio. Dylid nodi hefyd fod sicrhau lefelau digonol o staff er mwyn gallu agor a cynnal yr unedau yn rwystr.

4.7 Byddai'n amlwg rhaid ystyried rheoliadau Arolygaeth Gofal Cymru er mwyn sicrhau bod gofynion staffio priodol i gwrdd â'r angen. Law yn llaw a hyn byddai angen ystyried oblygiadau cyllido'r lefelau staffio, yn ogystal a chyllido unrhyw

addasiadau angenrheidiol i’r adeilad. Gwyddwn yr angen i fuddsoddi (cyfalaf a refeniw) er mwyn gallu newid y balans ymhellach, ac mae’r rhaglen waith o ran hyn yn mynd rhagddo trwy amryw gynlluniau.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Gofal |
| **DYDDIAD** | Tachwedd 23ain, 2023 |
| **TEITL** | Cefnogaeth i Ofalwyr Di-dâl |
| **PWRPAS** | A oes cefnogaeth addas i ofalwyr di-dâl yng Ngwynedd? |
| **AWDUR** | Sian Griffiths, Arweinydd Llesiant, Gwasanaeth Cefnogi Iechyd a Llesiant |

## 1.Pwrpas yr Adroddiad

Cafwyd cais gan y Pwyllgor Craffu i ddarparu gwybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr di-dâl yn y sir, gan ystyried yn benodol:

- Beth yw'r gefnogaeth bresennol a gynigir?
- A yw'r gefnogaeth yn diwallu anghenion gofalwyr di-dâl?
- A oes cynlluniau newydd ar y gweill i wella'r ddarpariaeth?

## 2.Cefndir

2.1 Mae miloedd o bobl yn darparu gofal di-dâl ar gyfer aelodau o'r teulu neu ffrindiau sy'n sâl, yn hŷn neu'n anabl bob dydd yng Ngwynedd. Mae'r niferoedd yma'n cynyddu fel mae'r boblogaeth yn heneiddio.

2.2 Gelwir y bobl yma'n ofalwyr di-dâl. Gallant fod yn rhieni ofalwyr sy'n gofalu am blentyn gydag anableddau; rhieni ofalwyr sy'n gofalu am blentyn sydd wedi tyfu'n oedolyn; oedolyn sy'n gofalu am oedolyn arall - cymar/ rhiant/ ffrind neu berthynas; plant a phobl ifanc sy'n gofalu, neu'n helpu i ofalu am frawd, chwaer, rhiant neu berthynas.

2.3 **Mae 10,448 o bobl yn adnabod eu hunain fel gofalwyr di-dâl yng Ngwynedd yn ôl cyfrifiad 2021, sef 8.9% o'r boblogaeth** - ond mewn gwirionedd gwyddom fod y ffigwr yn llawer uwch na hynny.

2.4 Gofalwyr di-dâl sy'n darparu'r mwyafrif helaeth o ofal a chefnogaeth i unigolion bregus, anabl a sâl yn ein cymdeithas, ac felly'n arbed cannoedd ar filoedd i wasanaethau statudol pob blwyddyn. Fodd bynnag mae effeithiau Cofid, yr argyfwng costau byw, a'r diffyg mewn gofalwyr cyflogedig wedi gwaethygu sefyllfa llawer o ofalwyr di-dâl. Felly mae'r cwestiwn a ydym yn gwneud digon i'w cefnogi i barhau â'u rôl gofalu yn un amserol, ac mae'r ateb yn syml - nag ydym. Ond mae hynny'n rhywbeth sy'n cael ei gydnabod ac rydym yn awyddus i gymryd camau i wella'r sefyllfa.

2.5 Bob blwyddyn mae Gofalwyr Cymru (Carers Wales) yn cynnal arolwg o ofalwyr er mwyn deall eu sefyllfa yng Nghymru. Yn ôl yr adroddiad 'Cyflwr Gofalu yng Nghymru 2022' mae gofalwyr yn wynebu heriau cynyddol gyda llawer yn teimlo'n unig, yn anweledig ac yn ynysig a hynny mewn hinsawdd ariannol anodd iawn.

## 3. Yr Arweiniad gan y Llywodraeth

Daw arweiniad a chydnabyddiaeth glir o rôl gofalwyr di-dâl o Lywodraeth Cymru, ac mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gydnabod a gweithredu ar hynny. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn nodi bod hawl gan ofalwyr i dderbyn asesiad o'u hanghenion.

3.1 Mae Strategaeth Gofalwyr Di Dâl Llywodraeth Cymru yn nodi 4 blaenoriaeth ar gyfer cefnogi gofalwyr di-dâl:

- Adnabod a gwerthfawrogi
- Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth
- Helpu i fyw yn ogystal â gofalu
- Cefnogi mewn addysg a gwaith

## 4. Beth yw'r gefnogaeth bresennol sydd ar gael yng Ngwynedd?

Mae'r math o gefnogaeth a ddarperir yng Ngwynedd ar hyn o bryd yn amrywiol, ac yn ddibynnol ar drefniadau timau adrannol, capasiti'r darparwyr lleol, ac i raddau ar leoliad daearyddol.

Mae'n timau Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion, Anableddau Dysgu, Iechyd Meddwl a Phlant yn ymwneud â gofalwyr o bob math yn eu gwaith bod dydd. Maent yn gweithio'n agos â'r unigolion sy'n derbyn gwasanaeth, ac fel gweithwyr maent yn darparu cefnogaeth emosiynol ac ymarferol i'r sawl sy'n gofalu amdanynt hefyd. Mae hyn ynddo'i hyn yn hynod o werthfawr ac nid yw'n rhywbeth y gellir ei fesur yn hawdd. Yn aml darperir gofal a chefnogaeth yn y cartref i anwyliaid y sawl sy'n gofalu ac mae'n sicr yn medru bod yn gymorth mawr, ond ni ddylid disgwyl i unrhyw un fod yn gofalu'n ddi-dor.

Mae uned Gofalwyr Di-dâl o fewn y Gwasanaeth Cefnogi Iechyd a Llesiant sydd yn cydlynu gwaith datblygol yn y maes ac yn hyrwyddo ymgysylltu a chyfathrebu.

**4.1 Asesiad Gofalwyr**

Yn unol â'r ddeddf mae'r gefnogaeth i ofalwyr yn cynnwys y cynnig o asesiad gofalwyr i'r bobl hynny sy'n dod i sylw'r timau yng Ngwynedd, ac sy'n cael eu hadnabod fel gofalwyr di-dâl.

Sgwrs dda i ddeall a chofnodi sefyllfa'r gofalwyr ydi hyn sy'n rhoi cyfle iddynt ystyried os ydynt angen unrhyw help neu gefnogaeth ychwanegol. Nid yw llawer o ofalwyr yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael. Dro arall maent yn gyndyn o ystyried bod ganddynt hawl i gefnogaeth - fel cyfle i gael seibiant, help gyda chostau neu offer, yn ogystal â gwybodaeth am wasanaethau neu grwpiau lleol.

Fel arfer cynigir hwn fel asesiad unigol neu asesiad ar y cyd. Mae'r term 'asesiad' yn medru bod yn ddryslyd ac yn fwgan i rai gofalwyr, ac mae angen bod yn ofalus wrth gyflwyno hynny. Nid yw'r gofalwr bob amser yn awyddus i dderbyn asesiad, ac mae'r niferoedd sy'n cael eu cofnodi yn ffurfiol yn ein system rheoli gofal (WCCIS) yn gymharol isel, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn asesiadau ar y cyd. Nid yw'r ddarpariaeth yma'n hollol gyson ar draws y timau, ac mae cyfle yma i godi ymwybyddiaeth o'r hawl i dderbyn asesiad, ac i sicrhau fod pob asesiad yn ystyried pob agwedd o fywyd y gofalwr.

Bydd cynllun gofal a chefnogaeth yn deillio o'r asesiad a gellir trefnu neu gyfeirio at amrywiaeth o gefnogaeth yn cynnwys:

**4.2 Ysbaid byr**

4.51 Wedi dod i ddeall sefyllfa'r gofalwr drwy'r asesiad gellir cyd-drafod y math o gefnogaeth fyddai'n fwyaf buddiol iddynt. Yn y Gwasanaeth Oedolion gallai hyn gynnwys y cyfle i gael seibiant byr drwy wasanaeth cadw cwmni/eistedd, ble gall y gofalwr gael cyfle i gael seibiant o'i rôl gofalu. Gall yr ysbaid byr fod yn ychydig oriau'r wythnos, neu gallai gael ei gronni ar gyfer diwrnod cyfan. Mae'r math yma o gefnogaeth yn ddibynnol ar lefelu staffio'r darparwyr.

Mae tîm bychan o Weithwyr Cefnogi Dementia yn darparu cefnogaeth a chwmnïaeth i unigolion syn byw â dementia yn y Sir (wedi ei ariannu'n bennaf drwy'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol), ac mae'n sicrhau ysbaid i'r sawl sy'n gofalu amdanynt.

Mae'r Tîm Anableddau dysgu yn darparu ystod o gyfleoedd dydd ar gyfer eu cleientiaid sydd yn fodd o alluogi'r gofalwyr hefyd i gael ysbaid. Mae'r rhain yn cynnwys Cynllun Cysylltu Bywydau /ysbaid grŵp/sesiynau grŵp Llwybrau Llesiant/ arhosiad byr efo ffrindiau.

**4.3 Ysbaid Preswyl**
Gall y Gwasanaeth Oedolion drefnu gofal ysbaid mewn cartref preswyl i'r sawl y gofelir amdano er mwyn cynnig seibiant llwyr am gyfnod o hyd at bythefnos.

Mae gan y Tîm Anableddau Dysgu Unedau pwrpasol ar gyfer ysbaid yn Sŵn y Môr Pwllheli a Brookfield, Bangor, ac maent yn medru helpu cyfeirio cleientiaid i gael gwyliau byr e.e. carafán Cynnal Gofalwyr yn Hafan y Môr.

**4.4 Taliadau Uniongyrchol**
Gall y timau gynnig taliadau uniongyrchol i ofalwyr rhoi mwy o ddewis, rheolaeth a hyblygrwydd iddynt o ran y math o gefnogaeth y gellir ei drefnu. Os yw unigolyn yn gymwys am gymorth ar gyfer ei anghenion gofal a chefnogaeth, gall y Cyngor roi **arian** iddynt yn hytrach na **gwasanaeth**. Gallant ddefnyddio'r Taliadau Uniongyrchol i drefnu cefnogaeth sydd fwyaf addas i'w sefyllfa bersonol.

Ar hyn o bryd mae'r niferoedd sy'n derbyn taliadau uniongyrchol yn isel iawn. Mae prosiect penodol yn edrych ar wella, datblygu a hyrwyddo cyfleoedd i gynnig Taliadau Uniongyrchol yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

**4.5 Dementia Actif**
Mae'r Tîm Dementia Actif yn paratoi ystod o weithgareddau, grwpiau a sesiynau ar draws y sir ar gyfer unigolion sy'n byw â dementia a'r sawl sy'n gofalu amdanynt. Mae'r rhain yn cynnwys dosbarthiadau ymarferion ysgafn a chymdeithasu, Cynghrair Boccia, Grŵp Gofalwyr, Grŵp Garddio, Atgofion Chwaraeon a grwpiau cerdded.

**4.6 Gofal Dydd**
Arferai'r Cyngor ddarparu rhaglen o weithgareddau gofal dydd traddodiadol mewn lleoliadau penodol yn y sir ar gyfer oedolion oedd angen cefnogaeth. Bwydlen gyfyng o weithgareddau oedd ar gael yn aml, ac roedd rhai yn gorfod teithio pellter i'w cyrraedd. Er hynny roedd nifer o unigolion a gofalwyr yn gweld eu gwerth - efallai pan nad oedd dim arall ar gael. Mae adroddiad craffu pellach yn nodi datblygiadau posib o ran cefnogaeth ar lefel gymunedol.

**4.7 Ap Aidi**
Gwefan newydd wedi ei lansio ar y cyd ag Ynys Môn i helpu gofalwyr ifanc i ganfod gwybodaeth a chefnogaeth a chyfeirio eu hunain am asesiad. Mae ap unigryw sydd yn cyd-fynd â'r wefan ac yn fodd o adnabod gofalwyr ifanc, a gallant ei ddefnyddio mewn degau o siopau lleol ac ati i gael gostyngiadau. Mae hefyd yn ffordd o gysylltu'n sydyn efo'r ysgol neu'r coleg pan fyddant yn rhedeg yn hwyr oherwydd eu cyfrifoldebau gofalu. Mae 61 gofalwyr ifanc wedi ymaelodi hyd yma.

**4.8 Gwybodaeth ar Wefan y Cyngor**
Er bod gwybodaeth gynhwysfawr ar gael ar wefan y Cyngor, nid yw'n glir faint o bobl sydd yn troi at y tudalennau yma i chwilio am wybodaeth. Mewn gwirionedd mae gwybodaeth ar gael mewn llawer iawn o leoliadau amrywiol sydd yn ei gwneud yn anodd a dryslyd i'r gofalwyr. Mae cyfle yma i ystyried sut i gydweithio i wneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael.

Rydym wedi adolygu ac ail argraffu llyfryn 'Edrych ar ôl Rhywun' sydd yn un ffordd o gynnig gwybodaeth mewn un lle. Bydd hwn yn cael ei ddosbarthu'n eang yn ystod yr wythnosau nesaf.

**4.9 Cefnogaeth 3ydd Sector i Ofalwyr**
Mae'r Cyngor yn comisiynu dwy asiantaeth 3ydd sector benodol i fod yn darparu cefnogaeth i ofalwyr sef Cynnal Gofalwyr - ar gyfer oedolion a Gweithredu Dros Blant - ar gyfer plant a phobl ifanc. Maent yn cynnig ystod o wasanaethau:

- **Cynnal Gofalwyr** – Darparu cyngor a chefnogaeth emosiynol ac ymarferol yn cynnwys gwybodaeth budd-daliadau, yn ogystal â grwpiau cymorth penodol a gwasanaeth eiriolaeth a chwnsela. Mae ganddynt ddwy garafán yn safle Hafan y Môr, Pwllheli, sydd ar gael am bris gostyngedig i ofalwyr gael seibiant. Maent yn rhedeg y grant llesiant ar ran y Cyngor i ofalwyr, ac yn fwy diweddar yn gweinyddu grant Brêc Bach ar gyfer pob math o ysbaid i ofalwyr. Yn ogystal maent yn gweinyddu talebau nwyddau gwyn i'r rhai sydd mewn cynni ariannol. Ar hyn o bryd rhieni ofalwyr sy'n gwneud y mwyaf o ddefnydd o'r grantiau yma.


- **Gweithredu Dros Blant** – Comisiynir y mudiad yma i gynnal asesiadau gofalwyr ifanc ar ran y Cyngor, ac maent wedi cydweithio'n agos gyda'r swyddog Gofalwr Ifanc yn y Gwasanaeth Cefnogi Iechyd a Llesiant i ddatblygu'r Ap Aidi ar gyfer gofalwyr Ifanc. Maent yn cynnig cefnogaeth ymarferol i blant a phobl ifanc sy'n ofalwyr yn cynnwys cyngor a chefnogaeth i unigolion, cefnogaeth grŵp, tripiau a gweithgareddau, cyrsiau lles a help i gael mynediad i wasanaethau pellach. Maent hwythau'n cynnig grantiau bach a thalebau.

**4.10 Mudiadau Cyflyrau Penodol**
Mae nifer o fudiadau yn cynnig cymorth a gwybodaeth ar gyfer amrywiol gyflyrau iechyd e.e. Cymdeithas y Deillion ond maent yn rhy niferus i'w nodi yma. Mae'r rhain oll yn medru cynnig gwybodaeth a chefnogaeth o bob math i ofalwyr.

**4.11 Darpariaeth Gymunedol**
Mae nifer o fentrau cymunedol, yn weithredol mewn pocedi o Wynedd sy'n darparu pob math o wasanaethau ar lefel lleol. Erbyn hyn mae ystod bellach o ddarpariaeth ar gael i bobl yn eu cymuned leol gyda datblygiad yr hybiau cymunedol fel canolfannau sy'n '*Deall anghenion a gwneud y gorau o asedau lleol, gwneud cysylltiadau, gwneud perthnasau a chyd-gynhyrchu datrysiadau yn y gymuned er mwyn i bobl fedru byw bywyd da'.* Bellach mae rhwydwaith o glybiau cinio/swper, canolfannau croeso cynnes, sesiynau galw mewn, cynlluniau trafnidiaeth, gweithgareddau llesiant ac ati'n bodoli ar draws y sir. Drwy gydweithio, meithrin cysylltiadau a chyd-ddatblygu ar lefel lleol y gobaith yw y bydd modd datblygu a chyfoethogi'r ddarpariaeth i ofalwyr di-dâl fesul cymuned.

## 5. Niferoedd sy'n derbyn cefnogaeth - esiamplau

**5.1 Asesiadau Gofalwyr 2022/23**




**5.2 Gwasanaethau Cynnal Gofalwyr**
316 wedi cofrestru o'r newydd yn ystod 2022/23 (cyfanswm o 1627 yn derbyn cefnogaeth):
196 – wedi derbyn cymorth drwy'r prosiect cefnogi budd-daliadau

77 – wedi derbyn cymorth drwy'r swyddog prosiect Ysbyty Gwynedd
162 – wedi derbyn grant o'r gronfa llesiant
56 – wedi cael cymorth gan y swyddog prosiect Dementia Ysbyty Gwynedd (cefnogaeth yn YG i ofalwyr i unigolion sy'n byw efo dementia)

**5.3 Gweithredu Dros Blant**
121 o ofalwyr ifanc yn derbyn cefnogaeth drwy Gweithredu Dros Blant yn 2022/23
44 wedi derbyn asesiad o'r newydd yn ystod y cyfnod.
£2400 o gefnogaeth ariannol drwy'r gronfa argyfwng i deuluoedd

**5.4 Dementia Actif**
Cyfanswm y bobl sydd wedi mynychu sesiynau Dementia Actif yn ystod 2022/23: 240
Nifer o'r rhain sy'n byw â dementia neu'n ofalwyr: 95
Nifer o sesiynau a gynhelir ar hyd a lled Gwynedd: 17 o sesiynau amrywiol yr wythnos

## 6. A yw'r gefnogaeth yn diwallu anghenion gofalwyr di-dâl?

6.1 Nodwyd eisoes fod 10,448 o bobl yn adnabod eu hunain fel gofalwyr di-dâl yng Ngwynedd yn ôl cyfrifiad 2021. Dim ond canran fechan iawn o'r bobl yma sy'n agored i ni, felly mae'r gefnogaeth sydd ar gael heddiw'n diwallu anghenion nifer fechan o ofalwyr, a hynny mae'n debyg, yn rhannol. Mae llawer o waith da'n digwydd i gefnogi gofalwyr, ond mae gwaith pellach i'w wneud i ddeall i ba raddau yr ydym ni'n diwallu eu hanghenion, ac i ymestyn allan yn amserol i geisio adnabod a chefnogi gofalwyr sy'n guddiedig i ni, a hynny mewn cyd-destun ataliol.

6.2 Mewn cyfarfod eleni o'r siwper grŵp Dementia dyma oedd gan y mynychwyr (oedd yn cynnwys gofalwyr di-dâl) i'w ddweud o ran y math o gefnogaeth sydd ei angen arnynt:

- Angen cyngor a chymorth ffeithiol, priodol i ofalwyr yn 'gynnar' er mwyn gallu gwneud dewisiadau gwybodus ac osgoi argyfwng.
- Edrych ar sut i rannu'r wybodaeth mewn ffordd hawdd a sicrhau bod y wybodaeth yn gyson ym mhob cymuned.
- Ymarferwyr, yn enwedig meddygon teulu, i gymryd mwy o sylw o'r heriau y mae gofalwyr yn eu hwynebu a'r effaith ar eu hiechyd a'u lles.
- Seibiant priodol ac ystyrlon i ofalwyr sy'n gyson ledled y sir.
- Gwell dealltwriaeth ar sut i ddefnyddio taliadau uniongyrchol i dalu am seibiant.

### 7. A oes cynlluniau newydd ar y gweill i wella'r ddarpariaeth?

Mae 'cefnogi gofalwyr di-dâl' wedi ei adnabod fel un o'r amcanion o fewn y maes blaenoriaeth 'Gwynedd Ofalgar' yng nghynllun y Cyngor 2023-28.

7.1 Eisoes cytunwyd ar argymhellion mewnol oedd yn deillio o Asesiad Anghenion Oedolion Gwynedd 2022 – 27 ar gyfer y maes, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â heriau mewnol yn cynnwys cryfhau a chysoni'r drefn o gynnal asesiadau gofalwyr, hybu cyd-ddealltwriaeth rhwng gwasanaethau'r cyngor a'n partneriaid yn y 3ydd sector, a sicrhau eglurder ar y polisi codi tâl ar gyfer gofalwyr.

7.2 Fodd bynnag rydym ni'n awyddus i gydweithio â'n partneriaid i ddatblygu Cynllun Gofalwyr grymus ac uchelgeisiol ar y cyd ar gyfer Gwynedd, a hynny ar sail y pedwar blaenoriaeth genedlaethol. Bydd y Cynllun hwn yn gynllun ar draws pob ystod oedran – plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n ofalwyr di-dâl. Ein bwriad yw deall beth fyddai'n helpu gofalwyr i fyw bywyd da wrth barhau a'u rôl gofalu, beth sy'n gweithio'n ar lawr gwlad heddiw, a mynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu o fewn y maes. Dyma flas o'r math o flaenoriaethau sydd wedi codi hyd yma:

7.3 Tabl Blaenoriaethau

| Thema | Maes gwaith blaenoriaeth |
|---|---|
| **Thema 1. Adnabod a gwerthfawrogi gofalwyr di-dâl** | • Adnabod ffyrdd o gynnwys gofalwyr mewn datblygiadau a chynlluniau<br>• Hyrwyddo asesiadau gofalwyr a chysoni trefniadau ar draws y Cyngor<br>• Codi ymwybyddiaeth gofalwyr o'u rôl a'i phwysigrwydd a gwella'r gydnabyddiaeth<br>• Cynhadledd ar y cyd i godi ymwybyddiaeth<br>• Ail ymweld â'r syniad o ethol pencampwr/wyr gofalwyr di-dâl<br>• Gwaith sgopio i ystyried y budd o ymestyn y cynllun Aidi i ofalwyr hŷn yng Ngwynedd |
| **Thema 2. Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth** | • Adolygu a diweddaru Gwefan y Cyngor gan greu cyswllt i wybodaeth addas<br>• Cydlynu sesiynau gwybodaeth aml-asiantaethol ar draws y sir<br>• Cryfhau Rhwydwaith Gofalwyr – o ran aelodaeth<br>• Cydweithio gyda'r hybiau lleol i rannu gwybodaeth a phresenoldeb<br>• Codi ymwybyddiaeth o'r hawl am asesiad gofalwyr, a be mae'n ei olygu<br>• Gwella mynediad at wybodaeth i weithwyr yn y maes |
| **Thema 3. Help i fyw yn ogystal â gofalu** | • Cyfle i roi mwy o ddewis i bobl drwy Daliadau Uniongyrchol – angen hyrwyddo i drigolion/staff<br>• Hybu ymwybyddiaeth pobl/staff o'r grantiau llesiant/Amser – yn enwedig pobl hŷn<br>• Hybu ymwybyddiaeth o gefnogaeth Cynnal Gofalwyr/Gweithredu dros Blant ymysg staff a thrigolion<br>• Cydweithio i ddatblygu cymorth cymunedol hyblyg ac addas i unigolion a gofalwyr<br>• Angen trefn ganolog i rannu gwybodaeth am be sydd ar gael ymhob cymuned<br>• Gwneud defnydd ac addasu'r asedau lleol sydd ar gael i gynnig opsiynau addas a hyblyg<br>• Codi ymwybyddiaeth a chydweithio gyda'r hybiau cymunedol a'r darparwyr gofal lleol<br>• Hyrwyddo mwy ar y micro fusnesau gofal lleol i roi mwy o ddewis i bobl, ac ystyried ymestyn cefnogaeth datblygu busnes i fusnesau bach sy'n cefnogi plant a phobl ifanc (bu'r pwyslais ar oedolion hyd yma)<br>• Ystyried sut y gall technoleg gefnogi gofalwyr di-dâl a'u teuluoedd |
| **Thema 4. Cefnogi gofalwyr di-dâl mewn addysg ac yn y gweithle** | • Parhau codi ymwybyddiaeth disgyblion ac athrawon drwy waith y swyddog Gofalwyr Ifanc<br>• Hyrwyddo ymarfer da o ran polisi/hawliau gofalwyr i staff ymysg sefydliadau partner/cyflogwyr y sir<br>• Datblygu a hyrwyddo'r gefnogaeth i staff sy'n ofalwyr o fewn y Cyngor<br>• Gwneud cyswllt pellach â Phrifysgol Bangor a Choleg Llandrillo Menai – rhannu data a gwybodaeth |

## 8. Casgliad

8.1 Bydd dau o bob tri ohonom yn darparu gofal di-dâl i'n hanwyliaid ar ryw adeg yn ein bywydau, ac felly mae'n bwysig bod help ar gael mor rhwydd, a buan â phosib er mwyn sicrhau bod y profiad hwnnw mor gadarnhaol â phosib.

8.2 Mae angen i ni fod yn adnabod gofalwyr yn gynt - a hynny o ran cyflogwyr, gwasanaethau iechyd a gofal, ac o fewn ein cymunedau, a sicrhau cefnogaeth a chydnabyddiaeth deg ac amserol iddynt.

8.3 Mae angen cydnabod mai agenda ataliol yw hwn ac mai cefnogi gofalwyr i barhau a'u rôl yw'r nod, a bod hynny am fod yn llesol i'r gofalwr, i'w hanwyliaid ac i'r gwasanaethau statudol. Gwyddom fod lle i ehangu'r gefnogaeth sydd ar gael ar hyn o bryd.

8.4 Mae'r gefnogaeth y gellir ei rhoi i ofalwyr di-dâl yng Ngwynedd yn ddibynnol iawn ar arian grant, a bydd llunio Cynllun Gofalwyr sirol sy'n mynd i'r afael â'r angen ond sydd hefyd yn fforddiadwy yn her aruthrol. Bydd angen pwyso a mesur y risgiau ariannol amlwg a'r risgiau i les unigolion yn ofalus wrth gynllunio i'r dyfodol.

8.5 Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Craffu Gofal am unrhyw sylwadau ar y cynlluniau uchod, unrhyw syniadau fyddai'n ategu atynt, neu unrhyw her i'r hyn sydd wedi ei gyflwyno.